

**AIL DREFN YCHWANEGOL Y CYMUN SANCTAIDD
AR GYFER TYMHORAU CYFFREDIN**

**A SECOND ADDITIONAL ORDER OF
HOLY COMMUNION FOR ORDINARY SEASONS**

AIL DREFN YCHWANEGOL Y CYMUN SANCTAIDD AR GYFER TYMHORAU CYFFREDIN

Rhan gyntaf gwasanaeth y cymun yw Dod â Bobl Dduw at ei gilydd. Dan ni'n cydnabod ein bod ni'n dod at ein gilydd fel pobl Dduw o wahanol leoedd a gyda gwahanol bethau ar ein meddyliau, ond dan ni i gyd yn cael ein galw i rannu yng ngwaith Duw. Dan ni'n dod at ein gilydd yn un corff, wedi ei glymu gyda'i gilydd mewn addoliad ac yng nghariad Duw.

Mewn ymateb i'n hymwybyddiaeth o bresenoldeb Duw a'n dymuniad i addoli Duw, dan ni'n cyffesu ein pechodau ac yn derbyn sicrwydd maddeuant Duw.

DOD Â BOBL DDUW AT EI GILYDD

***Mae'r gweinidog sy'n arwain yn dweud:**

Dywedodd Iesu "Fi ydy'r bara sy'n rhoi bywyd. Fydd pwy bynnag ddaw ata i ddim yn llwgu, a fydd pwy bynnag sy'n credu ynof fi ddim yn sychedu."

Emyn neu gân

**Dduw sanctaidd, dan ni'n dod yn agos
fel gwnaeth y bobl gasglu o gwmpas dy Fab di, Iesu.
Helpa ni i wneud dy waith di:
I gredu yn yr un rwyf ti wedi ei anfon,
Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.**

***Y weddi yma neu weddi arall o gyffes.**

Gadewch i ni gyffesu ein pechodau i Dduw a pharatoi i'w gyfarfod o yn y gair a'r sacrament.

Distawrwydd

Arglwydd Iesu, wnest ti ddod er mwyn i ni gael bywyd ar ei orau.
Arglwydd, trugarha.
Arglwydd, trugarha.

A SECOND ADDITIONAL ORDER OF HOLY COMMUNION FOR ORDINARY SEASONS

The first part of the communion service is the Gathering of the People of God. We recognise that we come together as God's people from different places and with different things on our minds, but all called to share in God's work. We gather as one body, bound together in the worship and love of God.

In response to our awareness of God's presence and our desire to worship God, we confess our sins and receive the assurance of God's forgiveness.

THE GATHERING OF THE PEOPLE OF GOD

***The presiding minister says:**

Jesus said, "I am the bread of life. Whoever comes to me will never be hungry, and whoever believes in me will never be thirsty."

A hymn or song

**Holy God, we gather near
just as the crowds gathered around your Son, Jesus.
Help us to do your work:
to believe in the one you have sent,
Jesus Christ our Lord. Amen.**

***This or some other prayer of confession:**

Let us confess our sins to God and prepare to meet him in word and sacrament.

Silence

Lord Jesus, you came that we might have life in all its fullness.
Lord, have mercy.
Lord, have mercy.

Arglwydd Iesu, dan ni wedi dilyn ein ffyrdd a'n dymuniadau ein hunain.
Crist, trugarha
Crist, trugarha

Arglwydd Iesu, mi fyddi di yn ein codi ni ar y dydd diwetha.
Arglwydd, trugarha
Arglwydd, trugarha

Mae ein Duw cariadus yn trugarhau wrthon ni ac yn maddau ein pechodau.
Amen. Diolch i Dduw.

Mae dod â bobl Dduw at ei gilydd yn gorffen efo gweddi dymhorol sy'n rhoi ffocws i weddiâu'r bobl wrth iddyn nhw ddod at ei gilydd o flaen Duw. Enw hwn ydy'r Colect.

Mae gan gwasanaeth y Cymun Sanctaidd ddwy brif ran, y gyntaf ydy Gweinidogaeth y Gair. Dan ni'n cyfarfod â Gair Duw trwy ddarlleniad yr Ysgrythur a'r archwilio ohono mewn pregeth neu drafodaeth neu ffyrdd eraill. Yn y Tymhorau Cyffredin, mae darlleniadau'r Efengyl yn y llithiadur yn ein harwain trwy ddysgediaeth Iesu a'i weinidogaeth.

Mewn ymateb i'n cyfarfyddiad â Gair Duw, dan ni'n cael ein cymell i weddio dros y byd, dros yr eglwys, dros bobl sy mewn angen a bobl sy'n galaru ac i ddiolch am y bobl sy wedi mynd o'n blaenau.

***Colect y dydd neu hwn neu rhyw weddi arall**

Dduw graslon
gwnaeth dy Fab Iesu Grist fwydo'r bobl oedd yn newynu gyda bara'r bywyd a gair dy deyrnas. Adnewydd dy bobl efo dy ras nefol, ac yn ein holl wendid cynnal ni efo dy wir a bywiol fara, Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

GWEINIDOGAETH Y GAIR

***Dau neu dri darlleniad o'r Ysgrythur, gyda'r Efengyl yn ddiwetha.**

Pregeth neu fyfyrdod

Lord Jesus, we have followed our own ways and desires.
Christ, have mercy.
Christ, have mercy.

Lord Jesus, you will raise us up on the last day.
Lord, have mercy.
Lord, have mercy.

Our loving God has mercy on us and forgives our sins.
Amen. Thanks be to God.

The gathering of the people of God concludes with a seasonal prayer which brings into focus the prayers of the people as they come together before God. This is known as the *Collect*.

The service of Holy Communion has two main parts, the first being the Ministry of the Word. We encounter God's word in the reading of Scripture and in the exploring of it through preaching, discussion or in other ways. In Ordinary Seasons, the lectionary Gospel readings guide us through the teaching and ministry of Jesus.

In response to our encounter with God's word, we are moved to prayer for the world, the church, those in need, those who mourn and to give thanks for those who have gone before us.

***The collect of the day or this or some other prayer**

Gracious God,
your Son Jesus Christ fed the hungry with the bread of life
and the word of your kingdom. Renew your people with your
heavenly grace, and in all our weakness sustain us by your true
and living bread, even Jesus Christ our Lord. **Amen.**

THE MINISTRY OF THE WORD

***Two or three readings of Scripture, the last of which is the Gospel**

A sermon, reflection or meditation

***Gweddïau o eiriolaeth**

Gadewch i ni weddio

Dduw'r Crëwr, dan ni'n gweddio dros y byd rwyd ti wedi ei greu...

Dduw'r Crëwr, tynna'r byd at Grist.

Arglwydd, gwranda arnon ni

Arglwydd, gwranda arnon ni yn dy ras.

Dduw sanctaidd, dan ni'n gweddio dros dy Eglwys yn bob man...

Dduw sanctaidd, tyn dy Eglwys at Grist.

Arglwydd, gwranda arnon ni.

Arglwydd, gwranda arnon ni yn dy ras.

Dduw sy'n iachau, dan ni'n gweddio dros bawb sy'n diodde...

Dduw sy'n iachau, tynna at Grist y rhai sy mewn angen.

Arglwydd, gwranda arnon ni.

Arglwydd, gwranda arnon ni yn dy ras.

Dduw tragwyddol, dan ni'n gweddio dros y bobl sy'n galaru a dan ni'n cofio am y bobl sy wedi ein gadael.

Dduw tragwyddol, tyn ni atat ti gyda nhw, a coda ni ar y dydd diwetha.

Arglwydd, gwranda arnon ni.

Arglwydd, gwranda arnon ni yn dy ras.

Dan ni'n cyflwyno ein holl weddïau yn enw Iesu Grist ein Gwardwr. **Amen.**

Ail brif ran y gwasanaeth ydy Gweinidogaeth y Sacrament. Wedi cyfarfod â Duw yn y Gair, dan ni rŵan yn cyfarfod â Duw yn y sacrament. Mae hyn yn dechrau efo rhannu'r tangnefedd. Yn symbolaidd, mae hyn yn ein hatgoffa am y cyfarwyddyd yn Mathew 5:23-24 i wneud heddwch â'n gilydd cyn i ni roi ein rhoddion.

***Prayers of intercession**

Let us pray.

Creator God, we pray for the world you have made...

Creator God, draw the world to Christ.

Lord, hear us.

Lord, graciously hear us.

Holy God, we pray for your Church in every place...

Holy God, draw your Church to Christ.

Lord, hear us.

Lord, graciously hear us.

Healing God, we pray for all who suffer...

Healing God, draw those in need to Christ.

Lord, hear us.

Lord, graciously hear us.

Eternal God, we pray for those who mourn and we remember the departed.

Eternal God, draw us with them to you, and raise us up on the last day.

Lord, hear us.

Lord, graciously hear us.

We offer these and all our prayers in the name of Jesus Christ our Saviour. **Amen.**

The second main part of the service is the Ministry of the Sacrament. Having encountered God in the Word, we now encounter God sacramentally. This begins with the sharing of the peace. Symbolically, this reminds us of the instruction of Matthew 5:23-24 that we make peace with one another before we offer our gifts.

Dan ni'n cynnig ein rhoddion gan wybod mai'r Arglwydd sy biau popeth ac mai dim ond cynnig i Dduw be sy biau fo ydan ni.
Mae'r Weddi Fawr o Ddiolchgarwch wrth galon gwasanaeth y Cymun Sanctaidd ac yn un o'i uchafbwyntiau. Mae'n ddathliad o weithredoedd mawr Duw mewn hanes ac o'n ffydd ni bod Duw yn dal i fod ar waith yn y byd.

Yn yr ymatebion agoriadol, mae'r gweinidog sy'n arwain yn cyfarch y bobl ac yn galw arnyn nhw i roi diolch i Dduw a'i foli. Enw hwn ydy'r *sursum corda*.

GWEINIDOGAETH Y SACRAMENT

Y Tangnefedd

Pawb i sefyll.

Dan ni wedi dod i adnabod ac i gredu yn Iesu Grist, Un Sanctaidd Duw, sy'n rhoi ei dangnefedd i ni.

Boed i dangnefedd yr Arglwydd fod gyda chi bob amser.
A gyda chi hefyd.

Gall y bobl gyfarch ei gilydd yn enw Crist.

PARATOI'R RHODDION

Emyn neu gân

*Mae rhoddion y bobl yn cael eu cyflwyno. Mae bara a gwin yn cael eu rhoi ar y bwrdd (neu yn cael eu dadorchuddio). Mae'r gweinidog sy'n arwain yn cymryd y bara a'r gwin ac yn eu paratoi i'w defnyddio.

Y DIOLCHGARWCH

*Mae'r gweinidog sy'n arwain yn rhoi'r weddi fawr o ddiolch gyda'r geiriau yma neu eiriau tebyg.

Boed i'r Arglwydd fod gyda chi
A gyda chi hefyd
Codwch eich calonnau
Dan ni'n eu codi i'r Arglwydd

We offer our gifts, knowing that everything that we have is the Lord's and so we only offer what is God's already.

The Great Prayer of Thanksgiving is at the heart of the service of Holy Communion and one of its highpoints. It is a celebration of God's great acts in history and our faith that God continues to be at work in the world.

In the opening responses, the presiding minister greets the people and calls them to give God thanks and praise. This is known as the *sursum corda*.

THE MINISTRY OF THE SACRAMENT

The Peace

All stand.

We have come to believe and know Jesus Christ, the Holy One of God, who gives us his peace.

The peace of the Lord be always with you.

And also with you.

The people may greet one another in the name of Christ.

THE PREPARATION OF THE GIFTS

A hymn or song

*The offerings of the people are presented. Bread and wine are brought to the table (or if already on the table are uncovered). The presiding minister takes the bread and wine and prepares them for use.

THE THANKSGIVING

*The presiding minister leads the great prayer of thanksgiving in these or similar words.

The Lord be with you

And also with you

Lift up your hearts

We lift them to the Lord

Gadewch i ni roi diolch i'r Arglwydd ein Duw
Mae'n beth da i ni roi diolch a mawl.

Mae hanes gwaith Duw yn y creu, yn yr ymrwymiad ac yng Nghrist yn cael eu dathlu. Enw hwn ydy'r rhagair.

Mae'r bobl yn cyhoeddi gogoniant Duw mewn fersiwn o Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd (y *sanctus*). Wrth i ni wneud hyn, dan ni'n cofio dan ni byth yn addoli ar ben ein hunain. Dan ni bob amser wedi ein huno gyda bobl Dduw ar y ddaear ac yn y nefoedd.

Mae ein holl addoliad yn ddibynnol ar bŵer yr Ysbryd Glân. Wrth ddathlu'r Cymun Sanctaidd, dan ni'n gweddïo y bydd y bara a'r gwin, i ni, yn gorff a gwaed Crist, trwy bŵer yr Ysbryd Glân. Enw hwn ydy'r *epiclesis*.

Dan ni'n dy foli di, O Dduw, achos ymhob cenedlaeth rwyd ti'n rhoi bywyd i'r byd. Wnest ti ganu'r byd i fod a chreu popeth yn ei holl ryfeddod ac amrywiaeth. Wnest ti weld fod popeth roeddet ti wedi ei wneud yn dda a thrwy dy fendith wnest ti roi'r byd i fod yn gartref i ni.

Yn yr Aifft, wnaeth dy bobl fwyta bara dagrau a diodde fel caethweision o dan orthrwm bobl bwerus. Yn dy ras, wnest ti eu harwain nhw allan, eu bwydo gyda bara croyw a'u tywys nhw yn yr anialwch lle wnest ti roi bara o'r nefoedd iddyn nhw.

Pan oedd bopeth yn barod, wnest ti anfon dy Fab Iesu Grist, y gwir fara o'r nefoedd. Wnaeth o roi bwyd i'r bobl oedd yn newynu a bwyta gyda bobl oedd wedi eu gwrthod a chrosawu pawb at y bwrdd mewn trugaredd a chariad.

Er mwyn rhoi bywyd i'r byd, aeth i'r groes; gan roi ei hun dros bawb, rhoddodd ei fywyd yn offrwm perffaith er mwyn rhoi clod i dy enw. Fo ydy oen y Pasg i ni, wnest ti ei godi o farw ar y trydydd dydd a'i godi i'r lle uchaf. Trwy Iesu wnest ti anfon Ysbryd y gwirionedd, i fod yn eiriolwr droson ni ac i aros gyda ni am byth.

Wedi ei godi i'r lle uchaf, yn eistedd ar ei orsedd yn y wledd nefol, mae o'n cael ei foli gan angylion, archangylion a saint bob oes, a dydy'r gân o fuddugoliaeth byth yn gorffen;

Let us give thanks to the Lord our God
It is right to give our thanks and praise.

The story of God's work in creation, covenant and Christ is celebrated. This is known as the *preface*.

The people proclaim God's glory in a version of Holy, holy, holy (known as the *sanctus*). As we do this, we remember that we never worship alone but are always united with God's people on earth and in heaven.

All our worship is dependent on the power of the Holy Spirit. In celebrating Holy Communion, we pray that the bread and wine may be for us the body and blood of Christ, by the power of the Holy Spirit. This is known as the *epiclesis*.

We praise you, O God, for in every generation you give life to the world. You sang the world into being, creating all things in their wonder and diversity. You saw that all you had made was good and by your blessing you gave the earth to be our home.

In Egypt, your people fed on the bread of tears, suffering under the toil of slavery and the oppression of the powerful. In your mercy, you led them out, feeding them with unleavened bread and guiding them in the wilderness where you gave them bread from heaven.

When all things were ready, you sent your Son Jesus Christ, the true bread from heaven. He fed the hungry and ate with outcasts, welcoming all to the table, in mercy and love.

To give life to the world, he went to the cross; giving himself for all, he laid down his life, a perfect offering to the glory of your name. Our paschal lamb, you raised him from the dead on the third day and exalted him to the highest place. Through him you sent the Spirit of truth, to be our Advocate, with us for ever.

Exalted to the highest place, enthroned at the heavenly banquet, he is praised by angels, archangels, and the saints of every age, and the triumphant song never ceases:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd
Duw y pŵer a'r grym
mae'r nefoedd a'r ddaear yn llawn o dy ogoniant.
Hosanna yn y nefoedd uchaf.
Bendith ar yr hwn sy'n dod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y nefoedd uchaf.

Dywedodd Iesu, "Fi ydy'r bara sy'n rhoi bywyd, wedi dod i lawr o'r nefoedd." Anfona dy Ysbryd Glân ar y bara yma, rhodd gan y ddaear, a'r gwpan yma, ffrwyth y winwydden, fel eu bod, i ni, yn gorff a gwaed Crist a bod pwy bynnag sy'n bwyta'r bara yma ac yn yfed y gwpan yma yn gallu byw am byth.

Dan ni'n dathlu'r Cymun Sanctaidd mewn ymateb i orchymyn Iesu i ni wneud hyn i gofio amdano. Felly dan ni bob amser yn adrodd digwyddiadau'r Swper Olaf. Trwy weddio'r hanes, dan ni'n hunain yn cymryd rhan yn y gweithgareddau, gan rannu yng ngeiriau a gweithredoedd Iesu ac ymuno wrth ei fwrdd.

Dan ni'n cofio hefyd be mae marwolaeth ac atgyfodiad Crist yn ei olygu i ni. Enw'r adrodd a'r cofio yma ydy'r *anamnesis*.

Dan ni'n dwyn i gof waith achubol Crist, gan ymateb, trwy gynnig ein hunain yn aberth. Nid ni biau ein hunain bellach ond Duw. Enw hyn ydy'r offrwm.

Mae'r Weddi Fawr o Ddiolchgarwch yn gorffen efo offrwm o fawl i Dduw y Drindod Sanctaidd, Y Fawlgan. Mae Amen yr holl bobl sy ynghyd yn pwysleisio ein bod ni'n dathlu ac yn cynnig ein hoffrwm i Dduw efo'n gilydd.

Mae Gweddi'r Arglwydd, roddodd Iesu i ni, yn cael ei dweud ym mhob gwasanaeth Cymun Sanctaidd. Mae'r cais i Dduw roi bara i ni bob dydd yn ein hatgoffa am ein hangen am bethau sylfaenol bywyd a'n hangen am gael ein cynnal yn ysbrydol wrth fwrdd yr Arglwydd.

Ar y noson y cafodd o ei fradychu, mi gymerodd fara a diolch a'i dorri a'i roi i'w ddisgyblion a dweud, "Cymerwch y bara yma, a'i fwyta. Dyma fy nghorff sy'n cael ei roi drosoch chi. Gwnewch hyn i gofio amdana i."

**Holy, holy, holy Lord,
God of power and might,
heaven and earth are full of your glory.
Hosanna in the highest.
Blessed is he who comes in the name of the Lord.
Hosanna in the highest.**

Jesus said, "I am the living bread that came down from heaven." Send your Holy Spirit upon this bread, the gift of the earth, and this cup, the fruit of the vine, that they may be for us the body and blood of Christ and that whoever eats this bread and drinks this cup may live for ever.

We celebrate Holy Communion in response to Jesus' command to do this to remember him. So we always recount the events of the Last Supper. By praying this story, we enter into these events for ourselves, sharing in Jesus' words and actions, and joining around his table.

We remember too what Christ's death and resurrection means for us. This recounting, remembering and recalling is known as the *anamnesis*.

We recall the saving work of Christ, offering also, in response, the sacrifice of ourselves. We are no longer our own but God's. This is known as the *oblation*.

The Great Prayer of Thanksgiving concludes with an offering of praise to God the Holy Trinity, known as *The Doxology*. The Amen of the whole gathered people emphasises that we make our celebration and our offering to God together.

The Lord's Prayer, given to us by Jesus, is said in every service of Holy Communion. Its request that God give us our daily bread reminds us of both our need for the essentials of life and of our need to be spiritually sustained at the Lord's table.

For on the night when he was betrayed, he took bread, gave thanks, broke it and gave it to his disciples saying, "Take, eat, this is my body which is given for you. Do this in remembrance of me."

Yn yr un ffordd, ar ôl swper cymerodd y gwpan a rhoi diolch a'i rhoi iddyn nhw a deud, "Yfwch o hwn, bob un ohonoch chi. Dyma fy ngwaed, sy'n selio ymrwymiad newydd Duw i'w bobl. Mae'n cael ei dywallt ar ran llawer o bobl, i faddau eu pechodau nhw. Gwnwch hyn bob tro y byddwch yn yfed ohono i gofio amdana i."

Felly gan gofio ei farwolaeth a'i atgyfodiad, a datgan ei aberth tragwyddol, dan ni'n dy foli di am y bara bythol a'r gwin cyfriniol, corff a gwaed Crist ein Hachubwr.

Wrth i ni fwyta'r bara yma ac yfed y gwpan yma:
mae Crist yn byw ynon ni a ni'n byw yng Nghrist.

Dan ni'n eu cynnig nhw i ti er mwyn bywyd yr Eglwys a bywyd y byd, er mwyn pawb sy mewn angen, pawb sy'n newynu ac yn sychedu. Fel y cafodd y grawn wasgarwyd ar y bryniau ei wneud yn un yn y bara yma, anfona dy Ysbryd arnon ni a dy holl eglwys a chasgla ni at ein gilydd. Er mwyn i ni, mewn heddwch ac undeb, fedru cyhoeddi dy deyrnas a cheisio dy achubiaeth di.

Felly Dad grasol, dan ni'n cynnig i ti ein haberth mawl a diolchgarwch, trwy Iesu Grist, dy fara sy'n rhoi bywyd i ni,

trwy hwn, gyda hwn ac yn hwn, trwy bŵer yr Ysbryd Glân, y mae bob anrhydedd a gogoniant yn perthyn i ti, rŵan ac am byth. Amen.

*Gweddi'r Arglwydd

Un ai

Dan ni'n dweud efo'n gilydd y weddi roddodd Iesu i ni:

Ein Tad yn y nefoedd,

sancteiddier dy enw,

deled dy deyrnas,

gwneler dy ewyllys,

ar y ddaear fel yn y nef.

Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;

a maddau inni ein troseddau,

fel yr ym ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbryn;

In the same way, after supper, he took the cup, gave thanks and gave it to them saying, "Drink from this, all of you, for this is my blood of the new covenant which is poured out for you and for many for the forgiveness of sins. Do this as often as you drink it in remembrance of me."

Remembering therefore his death and resurrection, and proclaiming his eternal sacrifice, we praise you for the everlasting bread and mystic wine, the flesh and blood of our Saviour Christ.

As we eat this bread and drink this cup:
Christ lives in us and we live in Christ.

We offer them to you for the life of the Church and the world, for all in need, for all who hunger and thirst. Send your Spirit upon us and all your Church and gather us together, even as the grain scattered across the hillsides was made one in this bread, that in peace and unity we may proclaim your kingdom and seek your salvation.

So, gracious God, we offer you this our sacrifice of praise and thanksgiving, through Jesus Christ, your living bread and ours,

**by whom and with whom and in whom, in the power of the Holy Spirit, all honour and glory are yours, both now and for ever.
Amen.**

*The Lord's Prayer

Either

We say together the prayer that Jesus gave us:

**Our Father in heaven,
hallowed be your Name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our daily bread.
Forgive us our sins
As we forgive those who sin against us.**

**a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu
a'r gogoniant am byth. Amen.**

Neu

Fel gwnaeth ein Hachubwr ddysgu ei ddilynwyr, dan ni'n gweddio;

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy Enw:
deled dy deyrnas;
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r nerth a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

Gweddi'r Arglwydd o Efengyl Mathew, beibl.net,

**Ein Tad sydd yn y nefoedd,
dan ni eisiau i dy enw di gael ei anrhydeddu.
Dan ni eisiau i ti ddod i deyrnasu,
ac i'r cwbl sy'n dda yn dy olwg di
ddigwydd yma ar y ddaear fel mae'n digwydd yn y nefoedd.
Rho i ni ddigon o fwyd i'n cadw ni'n fyw am heddiw.
Maddau i ni am bob dyled i ti
yn union fel dan ni'n maddau i'r rhai sy mewn dyled i ni.
Cadw ni rhag syrthio pan fyddwn ni'n cael ein profi, ac achub
ni o afael y drwg.
[Achos ti biau'r deyrnas, a'r pŵer a'r gogoniant rŵan ac am
byth. Amen.]**

**Save us from the time of trial
and deliver us from evil.
For the kingdom, the power and the glory are yours,
now and for ever. Amen.**

Or

As our Saviour taught his disciples, we pray:

**Our Father, who art in heaven,
hallowed be thy Name;
thy kingdom come;
thy will be done;
on earth as it is in heaven. Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses,
as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation;
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever. Amen.**

'Torri'r bara' ydy un o'r enwau cynhara am y sacrament gyfan. Yn yr Ysgrythur cawn ein dysgu pan dan ni'n torri bara dan ni'n datgan marwolaeth yr Arglwydd hyd nes bydd yn dod. Fel rhan benodol yn y gwasanaeth, mae'n ein hatgoffa o'n hundeb efo pawb sy'n rhannu yn y Cymun Sanctaidd. Mae pwrpas ymarferol iddo hefyd gan fod yn rhaid i'r bara gael ei dorri er mwyn i bawb ei dderbyn.

Mae Oen Duw (neu *Agnus Dei*) yn emyn hynafol adeg torri'r bara. Mae'n ein hatgoffa wrth i ni rannu bara sy wedi ei dorri, ein bod ni hefyd yn rhannu yn aberth Crist wnaeth dynnu i ffwrdd bechod y byd.

TORRI'R BARA

Mae'r gweinidog sy'n arwain yn torri'r bara, gan ddweud

Mae bara Duw yn dod i lawr o'r nefoedd ac yn rhoi bywyd i'r byd.
Rho i ni'r bara yma bob amser!

Distawrwydd, pawb i eistedd neu benlinio.

Oen Duw, rwyt ti'n cymryd i ffwrdd bechod y byd, trugarha wrthon ni.

Oen Duw, rwyt ti'n cymryd i ffwrdd bechod y byd, trugarha wrthon ni.

Oen Duw, rwyt ti'n cymryd i ffwrdd bechod y byd, rho heddwch i ni.

*Mae'r gweinidog sy'n arwain, y rhai sy'n helpu i rannu, a'r bobl yn derbyn y cymun.

Mae'r geiriau yma o wahoddiad yn cael eu defnyddio:

Dywedodd Iesu, "Fi ydy'r bara sy'n rhoi bywyd. Fydd pwy bynnag ddaw ata i ddim yn llwgu, a fydd pwy bynnag sy'n credu ynof fi ddim yn sychedu." Dewch yn agos mewn ffydd.

*Mae geiriau fel rhain yn cael eu dweud yn ystod y rhannu:

Corff Crist, bara o'r nefoedd. **Amen.**

Gwaed Crist, cwpan achubiaeth. **Amen.**

Mae'r elfennau sy ar ôl yn cael eu gorchuddio efo lliain.

The breaking of bread is one of the early names for this sacrament as a whole. In Scripture we are taught that when we break bread we proclaim the Lord's death until he comes. As a specific moment in the service, it reminds us of our unity with all who share in Holy Communion. It also serves a practical purpose as the bread must be broken for the people each to receive.

Lamb of God (or *Agnus Dei*) is an ancient hymn at the breaking of the bread. It reminds us that as we share in broken bread, we share too in Christ's sacrifice by which the sin of the world is taken away.

THE BREAKING OF THE BREAD

The presiding minister breaks the bread, saying:

The bread of God comes down from heaven and gives life to the world.

Give us this bread always!

Silence, all seated or kneeling.

Lamb of God, you take away the sin of the world, have mercy on us.

Lamb of God, you take away the sin of the world, have mercy on us.

Lamb of God, you take away the sin of the world, grant us peace.

*The presiding minister, those assisting with the distribution, and the people receive.

These words of invitation are used:

Jesus said, "I am the bread of life. Whoever comes to me will never be hungry, and whoever believes in me will never be thirsty." Draw near with faith.

*Words such as the following are said during the distribution:

The body of Christ, the bread of heaven. **Amen.**

The blood of Christ, the cup of salvation. **Amen.**

The elements that remain are covered with a suitable cloth.

Ar ôl derbyn y cymun, dan ni'n diolch i Dduw am be wnaethon ni dderbyn yn y sacrament. Dan ni'n edrych ymlaen i'r dydd pan fyddwn ni'n gwledda wrth y bwrdd nefol.

Mae'r gweinidog sy'n arwain yn diweddu'r gwasanaeth efo bendith i'r bobl cyn eu hanfon nhw allan i wasanaethu Duw yn y byd.

GWEDDIAU A GOLLWNG

Gadewch i ni weddio.

**Arglwydd ein Duw,
Rwyd ti wedi ein cryfhau ni ar gyfer ein taith efo Crist,
y bara sy'n rhoi bywyd.
Tyrd â ni i fod efo ti yn y gogoniant fel y medrwn efo'r
angylion a'r archangylion a holl gwmni'r nefoedd,
dy foli di am byth. Amen.**

Emyn neu gân

Mae'r gweinidog sy'n arwain yn dweud:

Boed i Grist y bara sy'n rhoi bywyd fyw ynoch chi bob amser a
chi ynddo fo,
a boed i fendith Duw
y bythol tri yn un a'r bythol un yn dri
fod arnoch chi ac aros efo chi bob amser. **Amen.**

***Mae'r gweinidog sy'n arwain yn dweud:**

Ewch mewn heddwch i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist. Amen.

After receiving communion, we give thanks to God for what we have received in the sacrament. We look forward to the day when we will feast at the heavenly table.

The presiding minister ends the service with a blessing for the people before sending them out to serve God in the world.

PRAYERS AND DISMISSAL

Let us pray.

**Lord our God,
you have strengthened us for our journey
with Christ, the Living Bread.
Bring us to be with you in glory
that with angels and archangels
and all the company of heaven
we may praise you for ever. Amen.**

A hymn or song

The presiding minister says:

May Christ the living bread live always in you and you in him,
and may the blessing of God,
ever three and ever one
be upon you and remain with you always. **Amen.**

*The presiding minister says:

Go in peace to love and serve the Lord.
In the name of Christ. Amen.

Cydnabyddiaeth

Oni ddywed yn wahanol, mae hawlfraint yr holl ddeunydd yn perthyn i © Trustees for Methodist Church Purposes 2022. Mae hawl i ddefnyddio deunydd sy'n perthyn i TMCP i bwrpas anfasnachol heb dderbyn caniatâd. Ar gyfer defnydd masnachol mae angen cysylltu efo publishing@methodistchurch.org.uk.

Daw bob salm, darlleniad o'r ysgrythur a brawddeg ysgrythurol o beibl.net.

Daw testunau Gogoniant i Dduw yn y goruchaf, Credo Nicea, Credo'r Apostolion, *Sursum Corda*, *Sanctus*, *Benedictus Qui Venit*, *Agnus Dei*, *Gloria Patri*, *Te Deum Laudamus* o **Praying Together**, hawlfraint 1988 The English Language Liturgical Consultation. (ELLC)

Mae'r weddi sy'n dilyn y cymun wedi ei chymryd o'r **Alternative Service Book 1980**, hawlfraint The Central Board of Finance of the Church of England.

Mae'r colect ar wedi ei addasu o **The Book of Alternative Services** 1985, hawlfraint The General Synod of the Anglican Church of Canada.

Acknowledgements

Unless otherwise stated below, all material is © Trustees for Methodist Church Purposes 2022. The material owned by TMCP may be used for non-commercial purposes without obtaining permission. For commercial usage please contact publishing@methodistchurch.org.uk.

All psalms, scripture readings and scripture sentences are taken from **The New Revised Standard Version of the Bible (Anglicized Edition)**, © 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of Churches of Christ in the United States of America, and are used by permission. All rights reserved.

The texts of *Glory to God in the highest*, the Nicene Creed, the Apostles' Creed, *Sursum Corda*, *Sanctus*, *Benedictus Qui Venit*, *Agnus Dei*, *Gloria Patri*, *Te Deum Laudamus*, *Benedictus* and the first version of the Lord's Prayer are from **Praying Together**, © 1988 by the English Language Liturgical Consultation (ELLC).

The post-communion prayer on page 53 is an extract from **The Alternative Service Book 1980**, © 1980 The Central Board of Finance of the Church of England.

The collect on page 77 is adapted from **The Book of Alternative Services**, © 1985 The General Synod of the Anglican Church of Canada.